# CWLWM

**MEDI**

**2022**

Rhif 68

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**



# ***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

## ***Cynnwys***

***Golygyddol***

***O Ddyffryn Clodfawr Clwyd i Barc Arfordir Penfro***

***Anerchiad y Llywydd, 'Ar y Mynydd gyda Duw'***

***Enwau o 1822***

***Clociau Unigryw***

***Chwilio'r Beibl***

***Trindod Faen - neu Dair Pabell.***

***Atebion***

***Y Caethiwed Amgen***

***Ruth Davies - Llywydd Newydd Mudiad y Chwiorydd***

***Souvenir of the Manchester Welsh Wesleyan Circuit Bazaar***

***Blasus ac Oren***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

# Golygyddol

Er bod y mab wedi dyfrio'r ardd tra buon ni i ffwrdd yn ystod y cyfnod crasboeth hwnnw gawson ni ganol Awst, fe wywodd un goeden gan iddo anghofio hon. Pan ddes i adref, fyddwn i ddim wedi rhoi chwech cheiniog am y gobaith o'i hadfer. Ond - am fy mod i'r hyn ydw i - allwn i ddim anobeithio'n llwyr am ei thynged chwaith, felly fe gafodd hi ddŵr gen i yn rheolaidd er gwaeled y rhagolygon.



Yna, fel y cofiwch, fe anfonodd yr Arglwydd ei stwff Ef - sy'n well na'r un *Growmore*. Dim lot o arwydd o fywyd yn y dail crin cofiwch ond fe wnaeth Duw a fi gydweithio. A wir i chi, bore yma ddwetha mi sylwais bod blagur newydd yn dod wrth fôn pob un deilen grin! Ond ydy natur yn rhyfeddol?

Mae'n capeli ni – o bob enwad – mewn stad o nychu ac anobaith, ac fe wnaeth sychder y *Covid* roi'r ergyd farwol ac olaf i sawl capel fel y gwyddom.

Dail crin sydd yma i'w gweld ar sawl man fu'n llawn tyfiant a bywyd gynt. Ond na anobeithiwn gyfeillion. Os dichon Duw o'r meini hyn godi plant i Abraham fe ddichon hefyd adnewyddu y gweddill ffyddlon sy'n dal ati i weddïo am gawodydd o fendith ac am adnewyddiad trwy rym bywiol yr Ysbryd i do newydd sydd heb adnabod yr Arglwydd erioed cyn hyn.

Os oedd Sior VI wedi galw cwrdd gweddi cenedlaethol adeg Dunkirk rwy'n sicr y gallwn ni Gristnogion 2022 ofyn i Dduw am ein hachub a'n hadfywio ninnau a rhoi i ni ddail newydd a bywyd newydd.

Einir Jones (Gol.)

Os carech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT

Neu ebost:

einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

# O Ddyffryn Clodfawr Clwyd i Barc Arfordir Penfro

## Cyfarfod Blynyddol y Senana 2022

**gan**

**Hazel Williams Jones.**

Ie wir, wedi'r hir ddisgwyl, heb anghofio'r amserau trist ac anodd a ddaeth i'n rhan ni i gyd, dyma gyfeirio trwyn y car i barc arfordir sir Benfro ar Fai'r 4ydd. Cychwyn am 8.15 y bore o Ruthun, codi Gwylan yn Llanelidan a hithau'n glawio, ac yn meddwl am y siwrnai hir o 145 milltir o'n blaenau.

Ond fe welodd Duw yn dda i ofalu amdanom; fe gododd yr haul i'r wybren wrth deithio trwy stryd fawr brysur y Bala. Ymlaen â ni gan edrych ar ogoniant yr Aran cyn troi am y Brithdir ger Dolgellau, a chofio yn annwyl am un a roddodd oes o wasanaeth i'r enwad a'i holl weithgareddau. Teithio i lawr am arwydd Talyllyn gan adael Cader Idris a'i harddwch tu cefn inni, a gofalu peidio gyrru a chadw at y 30 milltir yr awr trwy Corris a chyrraedd Machynlleth a'r goleuadau, a gweld yr adeiladu gogyfer y bont newydd. Ymlaen â mi am Aberystwyth – cofio am ferch fach ein teulu'n dweud ei bod yn ymweld ag Ynys Hir, minnau'n gofyn, "Beth welaist ti?" a'r ateb, "Coed, coed a mwy o goed". A dyma ni yn Rhydypennau a chwant bwyd ar y ddwy ohonom. Yno, o'n blaenau Anne a Carys, - sgwrs, bwyta a ffwrdd â ni.

Galw am ennyd ym Mlaen Plwyf gyda'r teulu ac i lawr yr arfordir tuag at Aberteifi. Edrych o'n cwmpas a gweld gogoniant creadigaeth Duw a'r haul yn gwenu – geiriau Abiah Roderick yn dod i'r cof, "Ac i feddwl fod rhywrai yn dweud and oes Duw yn bod, Wel! Wel!"

Ger Felindre Farchog Penfro dyma weld Ann a Carys eto a Gillian erbyn hyn – nid oeddem yn siŵr o'r ffordd, ond diolch fod Gret wedi dod i'r adwy a ninnau i gyd yn cyrraedd Caersalem yn saff.

Cawsom groeso arbennig wrth y drws gan Vivian, a finnau'n sylweddoli fod rhywbeth yn wahanol – y sedd fawr wedi diflannu, y seddau wedi mynd a chadeiriau yn eu lle, a do fe ddaeth eglurhad.

Dechreuwyd yr oedfa gyda merched o Gaersalem yn cyflwyno'r Rhannau Arweiniol, ac yna symud ymlaen i sefydlu Bonni ein llywydd newydd gyda Gweddi'r Urddo'n cael ei hoffrymu gan Judith. Wedi cyflwyno'r is-lywydd Menna Machreth cafwyd cyfarchion, cyflwyno siec ar dristwch yr Wcrain a'r adroddiadau. Wrth gwrs, bu inni ganu emynau o ddewis y llywydd newydd, a chyn iddi esgyn i'r pulpud, rhannodd ychydig o wybodaeth â ni. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bu i Bonni arwyddo Beibl y Llywydd ar y ddarllenfa o dan y pulpud ac roedd yn ei chyfrif hi'n fraint gwneud hynny gan i'r ddarllenfa gael ei chyflwyno i Gaersalem gan ei mam-yng-nghyfraith. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith o ail-addasu'r capel, a'u bwriad o dynnu'r pulpud allan, ond i'r bobl ifainc gamu i'r adwy gan ddweud fod angen pulpud ym mhob capel. Roedd yn falch iawn i gael camu i hwnnw hefyd gan mai saer ifanc, a oedd yn aelod yn y capel, a adeiladodd y pulpud newydd – gwaith cywrain a hyfryd.

"Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd" oedd thema neges Bonni ac eglurodd fel yr oedd Mynydd Carningli wedi chwarae rhan arbennig yn ei bywyd. Wedi ei geni a'i magu un ochr, ac yn awr wedi gwneud ei chartref yr ochr arall, mor braf oedd codi yn y bore ac edrych tua Carningli o'i blaen a'r tawelwch wrth fynd am dro, a'r heulwen yn codi calon, dro arall gweld cap o niwl ar ei ben. Onid yw bywyd yn debyg – weithiau yr haul yn gwenu a phopeth yn rhwydd, neu niwl yn ein harwain i ddigalondid ac anobaith. Ond o edrych yn uwch na'r mynyddoedd, gwelwn fod mawredd a gogoniant Duw yn fwy ac yn barhaol, ac yn abl i'n cynnal ar daith bywyd. Ac os yw ein addoliad yn y capel yn dda, yna bydd yn gymorth inni addoli a gwasanaethu'r Arglwydd bob dydd hefyd.

Yn dilyn y gwasanaeth croesawyd ni i Lwyngwair am luniaeth hyfryd i'n cynnal ar ein taith adref i'n gwahanol ardaloedd. Felly dyma adael sir Benfro am ddyffryn clodfawr Clwyd. Galw yn Llanrhystud gyda'r teulu ar ein ffordd ac wrth gwrs cwpaned o de i'n cynorthwyo. Cyrraedd Llanelidan am ddeg o'r gloch a gollwng Gwylan (ond ddim ei rhoi yn ei gwely!), a dyma fi yn saff yn Rhuthun am chwarter wedi deg ar ôl diwrnod diogel a hapus iawn. Diolch Bonni a Vivian ac aelodau Caersalem am y trefniadau a'r croeso arbennig inni.

*Gweler y llun o'r digwyddiad ar dudalen 29*

# Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion

# Anerchiad y Llywydd

Ann Bowen Morgan
Noddfa, Llanbedr Pont Steffan
a Chylch Eglwysi Gogledd Teifi
Mai 2022



*Mrs Ann Bowen Morgan*

Rŷm ni eisoes wedi canu'r emyn 'Ar y mynydd gyda Duw/ O mor ogoneddus yw', sef emyn fy nhad-cu, y Parchg David Bowen a oedd yn cael ei adnabod yn well o dan ei enw barddol 'Myfyr Hefin'. Rwy'n siŵr y byddai ef wedi bod yn falch o wybod (ac efallai yn synnu hefyd!) fod ei wyres wedi ei dyrchafu i Gadair y Gymanfa. Cafodd yntau'r fraint o fod yn Llywydd y Gymanfa hon nôl yn 1949, ac o wybod am ei ddiddordebau, ac am natur ei gyfraniad, nid rhyfedd mai 'Yr Arglwydd Iesu a'r Plant' oedd testun ei anerchiad o bulpud Horeb Pump-heol, lle bu'n weinidog am chwarter canrif a mwy. Yn anffodus prin blwydd a hanner oeddwn pan y bu ef farw ond rwyf wedi clywed llawer amdano a dysgu llawer drwy gyfrwng y teulu, ei lyfrau a'i bregethau. Yn ôl y deyrnged iddo yn Seren Gomer adeg ei farw yn 1955, 'Ef yn anad neb a sefydlodd Urdd y Seren Fore (sef cymdeithas plant yr enwad), a'i hwbio gydag aidd gydol ei oes'. Amcan yr Urdd yn ôl Llawlyfr Urdd y Seren Fore oedd '*Bugeilio'r plant er eu cael i'r Eglwys, darllen ac adrodd y Beibl a'u hennill i Grist*'. O na fyddai hynny'n digwydd ymhobman nid yn unig yn ystod ei gyfnod ef ond yn ein cyfnod ninnau hefyd! Rwy'n falch o adrodd o ran y Cylch hwn, fod cryn fwrlwm yn yr Ysgol Sul ym Mryn Hafod ar hyn o bryd, fel sydd wedi bod yn Ysgol Sul Noddfa ar hyd y blynyddoedd.

Cyn y Covid cawsom wahoddiad i fynd i Bump-heol i gwrdd â Tim Day, hanesydd lleol, a oedd yn gwneud gwaith ymchwil ar ran Cymdeithas Treftadaeth yr ardal ac yn benodol ar eglwys Horeb lle bu fy nhad-cu yn weinidog am chwe-mlynedd-ar-hugain. Buom at y bedd yn y fynwent newydd lle mae ef a fy mamgu wedi'u claddu, ac i hen Gapel Horeb (sydd, gwaetha'r modd, wedi ei gau ers blynyddoedd bellach), ond yn fwy na dim aethom i gopa Mynydd Sylen a gweld yr olygfa odidog i lawr ar hyd glannau Afon Lliedi, ar draws yr aber at Benrhyn Gŵyr ar y naill ochr, ac arfordir de-orllewin Sir Gâr a Sir Benfro ar y llall. Clywais lawer am yr olygfa hon gan y teulu, a dysgu mai yn y fan honno y cafodd Myfyr Hefin yr ysbrydiaeth i gyfansoddi'r emyn. Mae'n drueni fod emyn sy'n golygu cymaint nid yn unig i mi ond i fwy nag un genhedlaeth o Fedyddwyr Cymru wedi ei halltudio o Ganeuon Ffydd. Fodd bynnag, os 'Yr Arglwydd Iesu a'r Plant' oedd teitl anerchiad fy nhad-cu yn 1949, teitl yr anerchiad hwn yw 'Ar y Mynydd gyda Duw'. Yr hyn yr hoffwn ei wneud yw eich tywys i dri mynydd yn y Beibl gan ddechrau gyda stori Moses ar Fynydd Seinai.

## Moses ar Fynydd Seinai

Rydym i gyd yn gyfarwydd â stori Moses yn enwedig pan oedd yn fabi yn yr hesg ac wedi cael ei fagu gan y dywysoges, merch Pharo, brenin yr Aifft. Fe gofiwn hefyd amdano'n gorfod ffoi am iddo ladd Eifftiwr, ac yna, pan oedd yn bugeilio defaid ei dad-yng-nghyfraith Jethro ar Horeb, mynydd Duw, iddo gael gweledigaeth o'r Arglwydd yn ei alw o'r berth yn llosgi i arwain ei bobl i wlad ffrwythlon ac eang, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl'. Ydych chi'n cofio ymateb Moses? *'Pwy wyf fi i fynd at Pharo ac arwain pobl Israel allan o'r Aifft?', ond pwysicach oedd ymateb yr Arglwydd: 'Byddaf fi gyda thi; ac wedi iti arwain y bobl allan o'r Aifft, byddwch yn addoli Duw ar y mynydd hwn' (Ex.3:11-12)*. Fel Moses, gallwn ninnau fod yn swil ac yn ddi-hyder, ac wrth i ni gael ein galw i ddwyn cyfrifoldebau, deimlo nad oes gennym y gallu i wneud: 'O f'Arglwydd, ni fûm erioed yn huawdl ... y mae fy lleferydd yn araf a'm tafod yn drwm'. Ond eto, meddai Duw wrtho: 'Pwy a roes enau i feidrolyn? Pwy a'i gwna yn fud neu'n fyddar? ... Yn awr, dos, rhof help iti i lefaru, a'th ddysgu beth i'w ddweud' (Ex.4:10-11).

Trwy gydol y penodau hyn: Moses ac Aaron yn dadlau gerbron Pharo, hanes y deg pla, a sefydlu Gŵyl y Pasg, yr ymadawiad terfynol â'r Aifft; yna Duw yn arwain y bobl trwy golofn niwl y dydd

a cholofn dân y nos a'r stori gynhyrfus mae pob plentyn yn dwli arni, sef croesi'r Môr Coch a byddin Pharo yn cael ei boddi; yr holl bwynt yw bod Duw yn ffyddlon i'w gyfamod, ac yn wyneb pob anhawster a bygythiad a pherygl, mae'r Arglwydd yn nerthol ac yn cadw at ei air:

*Pan glywais riddfan yr Israeliaid oedd dan orthrwm ... cofiais fy nghyfamod. Felly, dywed wrth yr Israeliaid, 'Myfi yw'r ARGLWYDD, ac fe'ch rhyddhaf o orthrwm a'ch gwaredu o'ch caethiwed, a'ch achub â braich estynedig ac â gweithredoedd nerthol. Fe'ch cymeraf yn bobl i mi, a byddaf finnau yn Dduw i chwi; a chewch wybod mai myfi yw'r ARGLWYDD eich Duw. (Ex. 6: 5-8)*

Am y blynyddoedd nesaf, crwydro drwy'r anialwch a wnaeth y bobl, ac er gwaethaf gofal Duw trwy'u bwydo â manna o'r nefoedd a'u disychedu â'r dŵr o'r graig, blino a wnaeth y bobl, a thuchan yn erbyn Moses a thuchan hefyd yn erbyn Duw. Ac Eglwys Iesu Grist wedi bod yn yr anialwch am gymaint o amser, mae'n demtasiwn i ninnau ddigaloni ac efallai achwyn a thuchan. Ond beth wnaeth Moses? Nid aros yn yr anialwch ond dringo i ben y mynydd:

*Aeth Moses i fyny at fynydd Duw, a galwodd yr ARGLWYDD arno o'r mynydd a dweud, 'Fel hyn y dywedi wrth bobl Israel. Fe welsoch ... fel y codais chwi ar adenydd eryrod a'ch cludo ataf fy hun. Yn awr, os gwrandewch arnaf a chadw fy nghyfamod, byddwch yn eiddo arbennig i mi ymhlith yr holl bobloedd ... Byddwch yn deyrnas o offeiriaid i mi, ac yn genedl sanctaidd.' (Ex. 19: 3-6)*

Dyna bwysigrwydd addoli, dod ynghyd o Sul i Sul i wrando Gair yr Arglwydd, i gael ein hatgoffa fod ei fwriad Ef yn drech na'n holl broblemau, i gael ein hysbrydoli gan yr efengyl, i gael ein codi ar adenydd eryrod a'n cludo ato'i hun:

Ar y mynydd gyda Duw
O! Mor ogoneddus yw
Dwndwr pechod byd ymhell,
Ninnau gyda'r bywyd gwell.

Ar y mynydd hefyd y rhoddodd Duw y Deg Gorchymyn yn dangos i'r bobl sut y dylent fyw, ac ar y mynydd y rhoddodd gyfarwyddiadau ynghylch sut y dylent ei addoli; mae yna sôn am arch y cyfamod, y tabernacl yn symbol o'i bresenoldeb, tra byddent yn teithio. Nid bod

y bobl hyn yn berffaith – darllenwch y stori am addoli'r llo aur tra bod Moses ar ben y mynydd yng nghwmni Duw – eto mae Ef yn barod i faddau am mai Duw y cyfamod ydyw. Ac yna, pan ddaeth Moses lawr o ben y mynydd, roedd gogoniant Duw i'w weld yn amlwg iawn yn ei wedd: '*A phan ddaeth Moses i lawr o Fynydd Sinai gyda dwy lech y dystiolaeth yn ei law, ni wyddai fod croen ei wyneb yn disgleirio ar ôl iddo siarad â Duw' (Ex. 34: 29).*

Onid yw yr un mor bwysig i ninnau gofio cyfamod yr Arglwydd, bod yn ffyddlon iddo trwy fyw ein bywydau yn ôl ei orchymnion a'i Air, ac adlewyrchu ei bresenoldeb trwy dreulio amser mewn gweddi gydag Ef?

## Iesu a'r Bregeth ar y Mynydd

Awn yn awr at y Testament Newydd a hanes Iesu a'i Bregeth ar y Mynydd. Yn ôl adroddiad Efengyl Matthew, pan roedd Iesu wedi ei fedyddio gan Ioan, clywodd lais o'r nefoedd, 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd, ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu' (3:17), disgynnodd yr Ysbryd arno ar wedd colomen, a'r cwbl yn gomisiwn gan ei Dad nefol. Er i'r Iesu gael ei demtio gan y diafol, gorchfygodd y temtasiynau ac roedd yn barod ar gyfer cyflawni ei waith: 'Yna gadawodd y diafol ef, a daeth angylion a gweini arno' (4:11). Roedd yn barod yn awr i gyhoeddi dyfodiad y deyrnas: 'O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu bregethu'r genadwri hon: "Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos" (4:17). Y peth cyntaf mae'n ei wneud yw dewis ei ddisgyblion, Pedr ac Andreas, Iago ac Ioan, ac yn ei gwmni nhw mae'n symud ymlaen i wasanaethu pobl Galilea:

*Yr oedd yn mynd o amgylch Galilea gyfan, dan ddysgu yn eu synagogau hwy a phregethu efengyl y deyrnas, ac iacháu pob afiechyd a phob llesgedd ymhlith y bobl. Aeth y sôn amdano trwy Syria gyfan; dygasant ato yr holl gleifion ..., y rhai oedd yn cael eu llethu gan boenau, y rhai oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid ... ac fe iachaodd ef hwy. A dilynwyd ef gan dyrfaoedd mawr o Galilea a'r Decapolis, a Jerwsalem a Jwdea, a'r tu hwnt i'r Iorddonen.* (4:23-25)

Roedd Iesu'n wirioneddol boblogaidd, ac yna, mae'n dringo i'r mynydd:

Ar y mynydd gyda Duw
Dyma nefol fan i fyw;
Gweld yr haul yn codi draw,
Gweld borëau Duw gerllaw.

Yr awgrym yw mai mynd yno a wnaeth i ddianc rhag y tyrfaoedd a chymuno gyda'i Dad nefol, ond yna daeth Pedr ac Andreas, Iago, Ioan a'r lleill ar ei ôl; ac yntau wedi troi oddi wrth y tyrfaoedd, mae'n anelu ei sylwadau atyn nhw: 'Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn: Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd ... Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru ... Gwyn eu byd y rhai addfwyn' (5:1 -5) ac yn y blaen. Do fe dechreuodd gyda'r Gwynfydau y clywsom Rhiannon yn eu darllen mor fendigedig yn y rhannau arweiniol.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r Gwynfydau ac fe all fod ambell un yn golygu mwy i ni ar rai adegau nag eraill, ond maen nhw i gyd yn allweddol i fywyd y Cristion ac yn sicr dylent gael eu hystyried gyda'i gilydd. Maent yn cyfleu cymeriad cytbwys ac amrywiol pob gwir ddisgybl, y sawl sydd wedi bod ar y mynydd yng nghwmni Iesu: yr alwad i fod yn addfwyn, i sychedu am gyfiawnder, i fod yn ostyngedig, i fod yn drugarogion ac yn dangnefeddwyr. Oni ddylen ni fod yn sychedu yn fwy byth am gyfiawnder ac am dangnefedd yn y byd rhyfelgar sydd ohoni?

Funudau yn ôl buom gyda Moses ar ben Mynydd Seinai, pan sylfaenodd Duw y cyfamod a rhoi iddo'r Deg Gorchymyn. Bellach mae yna gyfamod newydd, y cyfamod mewnol sydd wedi ei ysgrifennu nid ar lechau o garreg ond ar galonnau'r disgyblion. Oes, mae yna barhad rhwng yr hen a'r newydd: '*Peidiwch â thybio i mi ddod i ddileu'r Gyfraith na'r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni'(5:17),* ond mae'r Bregeth ar y Mynydd yn cynnwys efengyl yn ogystal â chyfraith, gras yn ogystal â'r ddeddf. Yma mae Iesu yn ail-greu Israel; fel y bu gan Israel ddeuddeg llwyth, mae'r deuddeg disgybl yn ganolbwynt ar gyfer Eglwys Iesu Grist, sef y gymdeithas newydd mae Duw wedi ei chreu i fod yn gyfrwng i'w waith ar y ddaear. Os daeth Iesu i bregethu efengyl y deyrnas, ef hefyd sy'n ymgorffori'r deyrnas, a dylai rhinweddai'r deyrnas – y Gwynfydau – nodweddu ein tystiolaeth ni:

*Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo cannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwyllbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd. (5:13-16)*

Onid dyma'r alwad i ninnau wrth i ni fynd adref o'r Gymanfa i'n heglwysi a'n hardaloedd er mwyn bod yn dystion effeithiol iddo ef? 'Pan orffennodd Iesu lefaru'r geiriau hyn, synnodd y tyrfaoedd at yr hyn yr oedd yn ei ddysgu; oherwydd yr oedd yn eu dysgu fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel eu hysgrifenyddion' (7:28-9).

## Mynydd y Gweddnewidiad

Yn olaf awn gyda Iesu i Fynydd Tabor, mynydd y gweddnewidiad. (Mae cof annwyl gennym am eglwys Tabor Crosshands a'i haelodau pan oeddem yn gweinidogaethu yno yn yr wythdegau). Ar ôl i Pedr gyffesu mai Iesu oedd y Meseia, tywyllodd yr wybren wrth iddo, am y tro cyntaf, ragfynegi ei farwolaeth ei hun: 'Yna dechreuodd eu dysgu bod yn rhaid i Fab y Dyn ddioddef llawer, a chael ei wrthod gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, ac ymhen tridiau atgyfodi' (Mc 8:31). Ond cyn iddo fynd i mewn i Jerusalem ar gyfer aberth yr Wythnos Fawr, digwyddodd y rhyfeddod hwn:

*Ymhen chwe diwrnod dyma Iesu'n cymryd Pedr ac Iago ac Ioan ac yn mynd â hwy i fynydd uchel o'r neilltu ar eu pennau eu hunain. A gweddnewidiwyd ef yn eu gŵydd hwy, ac aeth ei ddillad i ddisgleirio'n glaerwyn, y modd na allai unrhyw bannwr ar y ddaear eu gwynnu. Ymddangosodd Elias iddynt ynghyd â Moses; ymddiddan yr oeddent â Iesu. A dywedodd Pedr ... 'Rabbi, y mae'n dda ein bod ni yma; gwnawn dair pabell, un i ti ac un i Moses ac un i Elias'. Oherwydd ni wyddai beth i'w ddweud; yr oeddent wedi dychryn cymaint. A daeth cwmwl yn cysgodi drostynt; a dyma lais o'r cwmwl, 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; gwrandewch arno'. Ac yn ddisymwth, pan edrychasant o amgylch, ni welsant neb mwyach ond Iesu yn unig gyda hwy. (Mc 9:2*-8)

Nid oedd Pedr wedi deall y rheidrwydd ar i Iesu farw, a chael ei geryddu am hynny: ' "*Dos ymaith o'm golwg, Satan," meddai, "oherwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol"' (Mc 8:33),* roedd yr un mor ddi-ddeall yn y fan hyn: ' "*Gwnawn dair pabell, un i ti ac un i Moses ac un i Elias". Oherwydd ni wyddai beth i'w ddweud*'. Roedd Pedr am aros yng ngwefr yr addoli, yng nghwmni Iesu yn ei ogoniant, heb ystyried bod Iesu yn

gorfod wynebu ar ei dynged, dod i lawr o ben y mynydd a chyflawni'r gwaith roedd Duw wedi ei alw i'w wneud. Ac fel y bu rhaid i Iesu ddod i lawr o ben y mynydd, mae'n rhaid i ninnau wneud yr un peth.

Rhaid yw dringo uwch y byd
Cyn cael cwmni Duw o hyd;
Temel hardda'r Cristion yw
Pen y mynydd gyda Duw.

Er gwaethaf ei bwyslais mawr ar ddefosiwn ac addoli, gwyddai Myfyr Hefin na allai neb aros ar ben y mynydd am byth ond bod gofyn i'r Cristion ddwyn ei dystiolaeth yn y dyffryn, yng nghanol gorchwylion beunyddiol y byd.

Byth oddi ar i mi ddod i fyw i Lambed un-mlynedd-ar ddeg yn ôl, rwyf wedi ymroi orau a allwn i weithgareddau oddi mewn i'r gymuned. Dysgu plant i ddechrau yn Ysgol Bro Pedr, bod yn diwtor i'r sawl sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg fel ail-iaith a chynnal gweithgareddau sgwrsio ar eu cyfer, gwasanaethu ar y Cyngor Tref a'i amrywiol bwyllgorau, gwirfoddoli yn y Ganolfan Deulu, cefnogi mudiadau diwylliannol a dyngarol fel y gallwn, heb sôn am fy nyletswyddau fel diacon ac ysgrifennydd yng Nghapel Noddfa, ac eleni y cefais y fraint fawr o fod yn Llywydd y Gymanfa hon.

Wrth i mi gyflwyno'r llywyddiaeth i'r Parchg Mary Davies a dymuno bendith Duw ar ei blwyddyn hi, rwyf wedi gwerthfawrogi'r cyfle hwn i dreulio peth amser yn eich cwmni 'ar y mynydd gyda Duw' ac am gael atgoffa'n gilydd am fendithion 'y bywyd gwell'.

Gobaith pob un ohonom, rwy'n siŵr, yw y byddwn yn gweld cyn hir 'yr haul yn codi draw', ac y bydd ein heglwysi yn 'gweld (o'r newydd) foreau Duw gerllaw'. Diolch am eich cefnogaeth, bendith ar waith yr efengyl yn y Gymanfa a bendith arnoch i gyd.

Er mwyn ei enw

Amen

# Enwau o 1822

## Margaret Davies

Dyma fi unwaith eto yn pori drwy hen rifynnau o Seren Gomer ac yn dod ar draws yr erthygl yma yn rhifyn Gorffennaf 1822, union dau gan mlynedd yn ôl i'r pryd rwy'n chwilio, ac sy'n sôn am roi enwau ar fabis.

Ieuan Ddu o Lan Tywi sy'n ysgrifennu ac yn dweud fel hyn:

"Yn awr gofynnaf i ddarllenwyr di-duedd y Seren onid oes yma enwau Cymreig llawn hardded i gael ag y rhai Saesneg (sy'n mynd yn fwy poblogaidd yn ein plith).

Rhoddaf isod gof restr o enwau fel na bydd ganddoch esgus nad oeddech yn gwybod.

Am yr enwau Cymreig maent cyn berted ag y geir mewn un iaith yn y byd ond ymarfer â hwy."

Dyma ddetholiad ohonynt:

Anan, Angharad, Arddun, Aregwedd, Arianwen, Ceinwen, Canna, Ceinfron,

Creidylad, Dolgar, Dwynwen, Dyfyr, Edwen, Eigyr, Eluned, Enid, Esyllt,

Euronwy, Fflur, Gwladus, Gwenhwyfar, Gwen, Gwenllian, Indeg, Madryn,

Morfudd, Merchell, Olwen, Penarwen, Rhianon, Tegwedd, Ystrawel.

Afan, Anarawd, Aneurin, Arthur, Benlli, Bleddyn, Brochwel, Brychan,

Cadell, Cynddelw, Cystenin, Dewi, Ednyfed, Einion, Emrys, Geraint, Gwalchmai, Gwgan, Gwrtheyrn, Hywel, Idris, Ifor, Iorwerth, Lleirwg, Llyr, Llewelyn,

Madog, Merddin, Morgan, Padrig, Rhiwallon, Rhydderch, Taliesin, Tudur, Talhaiarn

Tybed sawl un ydych chi'n eu hadnabod sydd â'r enwau hyn?

# Clociau Unigryw

## gan Aldyth Williams

Yn Seion Newydd, Treforys, mae gennym ddau gloc hollol unigryw sydd wedi bod yn y capel a'r festri ers yr 1860au.

Mae'r achos yn dyddio o 1845 ond fe ddaw'r adeilad presennol o tua 1869. Wel, beth sydd mor unigryw am y clociau hyn? Llythrennau sydd ar yr wyneb ac nid rhifau.

Gan ddechau lle byddai'r rhif 1, yn gwynebu pulpud y capel mae'r llythrennau yn sillafu CRED AC UFUDDHA. Yn y festri, y neges yw AWR DUW YN GALW.

Nid oes sicrwydd am oedran cloc y capel ond mae cloc y festri yn esbonio ei hun yn ddigon clir - rhodd yr Ysgol Sul ydoedd yn 1845.

Fe ges fy magu a'm bedyddio yng Nghapel Soar, pam felly mae'r clociau yn hollol gyfarwydd i'm profiad o bob oedfa ac achysur yn yr adeilad? Wel oherwydd fe roddwyd y clociau i Seion, ond yn awr rydym i gyd yn aelodau yn Seion Newydd. Hyd at ddiwedd y 1970au roedd tri chapel Bedyddiedig yn Nhreforys – Seion, Calfaria a Soar. Wrth edrych i'r dyfodol er mwyn sicrhau ein hetifeddiaeth dechreusom gyd-addoli, gan ymweld â phob adeilad yn ei dro, ond yn y pen draw nid oedd hyn y gynaliadwy. Diolch am weledigaeth y diweddar annwyl Parch. R.G. Roberts a'n harweiniodd i sefydlu Seion Newydd yn 1981. Bu'n ddatbygiad arloesol ond yr ydym i gyd wedi elwa o ddod at ein gilydd i'r fam-eglwys i sicrhau yr etifeddiaeth Fedyddiedig yn y dre.



*Cloc y Capel*

Llynedd yn 2021 cafwyd cyfle i ddathlu 40 mlynedd Seion Newydd.

Mae blwyddyn fy Llywyddiaeth o’r Undeb wedi dod i ben. Braf oedd cael dathlu yn y capel — blwyddyn arbennig i fi ac i Seion Newydd hefyd. Yr oedd yn hawdd iawn felly dewis thema’r flwyddyn o eiriau cloc y festri -AWR DUW YN GALW.

Nid yw’r gwahoddiad hwn yn perthyn i ddyddiad neu gyfnod arbennig. Dyma’r geiriau a ysbrydolodd y saer ifanc, Evan Woodhill, i sefydlu’r achos yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma’r gwahoddiad a dderbyniasom i sefydlu Seion Newydd yn yr ugeinfed ganrif. Dyma’r her i ni wrth wynebu trafferthion a phroblemau’r byd bregus, cyfoes yn yr unfed ganrif ar hugain.




*Cloc y Festri*

*(Tynnwyd y lluniau yma gan y Parchedig Eirian Wyn,*

*Gweinidog Seion Newydd. Gol.)*

---

Y mae arian yn was da ond yn feistr gwael.

All arian ddim prynu bywyd.

D’yw arian ddim yn eich newid—yr unig beth mae’n ei wneud yw datguddio eich cymeriad.

# Chwilio’r Beibl

1. Beth oedd enwau 3 merch Job? (Job 42, 12)
2. Rhowch un enw arall am Fôr Tiberias.
3. Beth oedd enau meibion Noa?
4. Pwy anfonodd lythyr i Peiat ar y Pasg, a pham?
5. Beth oedd enw mam meibion Sebedeus?
6. Beth oedd enw tad Samson ac i ba lwyth yr oedd yn perthyn?
7. Ble roedd Ioan yn bedyddio a pham dewis y fan honno?
8. Beth oedd enw gŵr cyntaf Herodias a sut roedd yn perthyn i Herod?
9. Lle symudodd Iesu i fyw ar ôl gadael Nazareth?
10. Beth oedd enw’r frawdle yn Jeriwsalem lle’r eisteddodd Peilat?
11. Enwch y ddau archoffeiriad gondemniodd yr Iesu i farwolaeth. Sut roedden nhw’n perthyn?
12, Enwch y pedwar man lle syrthiodd yr hadau yn nameg yr Heuwr.
13. Beth oedd enwau meibion Eli? Oedden nhw’n ddynion da?
14. Ar ba ddydd y cafodd Ioan ei weledigaeth ar Batmos?
15. Dafad ar goll, darn arian ar goll, mab ar goll. Pa efengylydd (yn unig) sy’n cofnodi’r tair dameg yma?
16. Beth oedd yn gwneud llyn Bethesda yn ddiddorol o ran a deiladwaith?
17. Pa arwydd addawodd Iesu i’r Iddewon oedd am iddo wneud gwyrth?
18. Enwch yr ŵyl – nad oedd yn Basg nac yn Bentecost nac yn Bebyll– pan aeth Iesu eto i Jeriwsalem yn ôl Ioan. Pryd y cyn haliwyd hon?
19. Ble roedd Neuadd Tyrannus. A phwy huriodd hi i ddysgu a darlithio?
20. Beth oedd gwaith dyddiol Acwila a Phrisilla?

# Trindod Faen – neu Dair Pabell

## Einir Jones

Pan gawsom ni'r hawl i deithio mewn dalgylch o fwy na phum milltir y daith gyntaf gymron ni oedd dros y Mynydd Du, rownd Tro'r Gwcw ac i lawr i Langadog a Llandeilo ac adref. Dim aros cofiwch. Dim paned. Dim ond gyrru a syllu ar harddwch y cwilt gwyrdd o amgylch Gwynfe oddi tanom a rhyfeddu at lesni'r awyr uchel ar y dydd cyntaf hwnnw o ryddid. Yr ail daith? (Oherwydd roedd hi'n bwrw'r Sadwrn dilynol). I ble aethon ni ar y Sadwrn ffein nesaf? Wel dros Fynydd y Gwair tu ôl i ni yma a heibio i Gapel y Baran (A) . Lle bendigedig yw'r Baran ac fe allwch edrych oddi yno heibio i simneuau Port Talbot yn mygu'n ddiog draw am Ddyfnaint a bae Abertawe a drosodd am Benrhyn Gŵyr a sir Benfro o'r gwaundir moel o amgylch yr hen le. Ar ôl cyrraedd y gwaelod yn ardal Rhyd y Fro medde fi wrth John, cer lan ar yr hewl heibio'r *Traveller's Rest* a dros y mynydd i ddod allan yn ardal Cwmllynfell.

Roedd John wedi bod ar y ffordd hon ddwywaith yn ei oes ond doeddwn i ddim erioed. Enw oedd arwydd Rhiw Fawr i mi (man lle magwyd Watcyn Wyn) ac atgof am Eic Davies yn procio yn rhywle. Ond roedd hi'n hen ffordd fach gul a serth y agor mas—wedi pasio arwydd eglwys Llangiwc - yn ysblander rhyfeddol ac agored ar y topiau. Ac yno, yng nghanol lle'n y byd, roedd capel o bopeth, capel bach y Gwrhyd (A). Fe arhoson ni i dynnu llun o'r lle cyn teithio dros y bryniau ac edrych ar gysgodion y cymylau yn gorwedd yn glytiau tywyll ar y mynyddoedd glas yn y pellter.

I lawr a ni wedyn i Gwmllynfell ei hunan, a'r gyffordd sydyn fel diwedd taith ar r*ollercoaster* yn aros yn stond, ac adref.

Ac fe ddechreuais i feddwl. Meddwl am hen gapel bach y Bedyddwyr yng Nghwmgerdinen ar ochor arall y mynydd. Gerasim yw ei enw. Roedd yr hen dadau yn adnabod eu hysgrythyrau oherwydd Mynydd yn Samaria yw Gerasim, dros y ffordd i fynydd Ebal. Roedd adlais da rhwng y ddau fynydd gyda llaw ac fe'i defnyddiodd Joshua hyn yn ddeche ddigon. Does dim addoldy yn Gerasim bellach, dim ond adeilad sydd wedi ei brynu gan gymdeithas o feicwr os deallais yn iawn, ond mae'r fynwent yn

dal i gael ei defnyddio. Wal gerrig o'i amgylch. Hen stablau wedi syrthio'n ddarnau gan henaint gerllaw. Ffordd hir yn arwain trwy'r brwyn a'r glaswellt gwyllt tuag ato. Tebyg iawn i'r ffordd i'r Baran a dweud y gwir heblaw bod un ar ochr orllewinol y mynydd ac yn perthyn i'r Bedyddwyr a'r llall ar yr ochr ddwyreiniol ac yn perthyn i'r Anibynnwyr. Mae'r Baran yn dal i fynd gyda llaw a'r fynwent fel pin mewn papur a'r adeilad mewn diwyg arbennig o dda. Ac yna, ymhellach draw ar fynydd y Gwrhyd i'r gogledd-orllewin, mae Capel y Gwrhyd, a wn i ddim oes oedfaon yno ai peidio a dweud y gwir. Felly mae'r drindod o faen yn cynrychioli un capel wedi cau, un ar agor, ac un wyddom ni ddim.

Mae'r tri chapel yma yn hen iawn. Roedden nhw wedi eu hadeiladu i bwrpas fel canolfanau i gredinwyr lleol o ffermydd cyfagos. Roedden nhw hefyd yn ddigon pell o'r dyffrynoedd mwy poblog ac yn swatio yn dawel yn eu rhedyn cysgodliw pan oedd erledigaeth yn broblem. Fel y daeth yr Ymneilltuwyr yn fwy derbyniol a dim angen leisans bellach i gynnal cwrdd codwyd capeli newydd mewn mannau haws ac îs ac ar fin y ffordd fawr lle gallai pawb eu gweld a'u mynychu'n rhwydd. Saron yw merch eglwys y Baran ar gyrion Rhydyfro. (Bu Idwal Jones, Llanrwst yno yn weinidog gynt). Mae'n bosib mai Capel Cwmllynfell ar y tro lle mae cofeb Watcyn Wyn yw merch eglwys Capel y Gwrhyd. Yn sicr, Noddfa Garnswllt yw merch eglwys Gerasim. Pob un ifancach mewn pentref o ryw fath fe sylwch.

Ond doedd yr hen addolwyr yn *tough* gwedwch? Adeiladu eu mannau diarffordd i addoli ar bennau mynyddoedd lle nad oedd cyfannedd hawdd nac arlliw o gysgod. Hyfryd ar ddiwrnod ffein i ni wrth basio i edmygu'r olygfa fendigedig ar y Sadwrn ond meddyliwch am y Sul gynt a hithau'n ddyfnder gaeaf, y glaw, y stormydd, yr eira a'r rhew ac angen cyrraedd y capel oer a di-drydan trwy gerdded neu farchogaeth. Fe fydden ni i gyd wedi edrych ar ragolygon y tywydd ac wedi danto, jibo, gif yp!

Gan i mi fod i mewn yn Gerasim pan oedd y Parchg Olaf Davies yn pregethu ar achysur dathliad, mi wn bod y pulpud ar y wal hir o'r adeilad hirsgar, yn union fel cynllyn y Baran.

Mae galeri yn y ddau gapel. (Maent yn debyg iawn o ran ffurf i'r Hen Gapel ger Pontarddulais (A) a adeiladwyd eto yn yr un cyfnod siwr o fod, ac hefyd i Gapel Undodaidd Pen Rhiw yn Sain Ffagan a Soar y Mynydd hefyd os cofia'i.) Wn i ddim am y Gwrhyd. Chwiliais ar lein a chael llun o'r tu allan ond welais i'r un o'r tu mewn.

Ie, Trindod Faen.

Tri man i addoli yn yr uchelderau geirwon heb rhyw lol fodern o feddal fel gwres canolog a dŵr rhedegog. Tri man er hynny le bu Duw yn siarad gyda'i bobl yn y gorffennol pell. Er gwaethaf beiau'r praidd a'r bugail yn sicr i chi, rhaid bod rhyw nerth rhyfedd yn a chan y tadau gynt i gasgu meini a llunio pren a rhoi cragen o gerrig i ffurfio adeilad cysegredig i gyfarfod Duw. Ac er y gerwinder, neu efallai o'i herwydd yn wir, oherwydd yr ymdrech fel Jacob ym Mheniel, roedd ac mae yn dal rywbeth ar ôl o'r ysbryd oedd yn cymell pobl yno gynt. Tybed â oedd beicwyr yn Gerasim yn teimlo rhywbeth o beth a fu wrth eistedd yn yr hen le ac yfed Coke a rhannu Kitkat? Tybed â yw ymwelwyr â'r Baran yn profi rhywfaint o'r sancteiddrwydd od o gynefin sydd yn y mawn o'i amgylch lle mae cyrff eu hynafiaid wedi eu claddu? Tybed â yw teithwyr digrefydd heddiw yn edmygus o olygfa glir a glas am gyfeiriad Cwm Nedd yn pasio'r Gwrhyd ac yn sylweddoli bod hwn yn lle tenau lle bu Duw yn cwrdd ac yn siarad a'i bobl yn uchelder y bryniau?

Meddai'r emyn;

*Rhaid yw dringo uwch y byd*
*I gael cwmni Duw o hyd.*
*Teml hardda'r Cristion yw*
*Pen y Mynydd gyda Duw*.

Roedd yr hen dadau wedi ei deall hi. Dringo'r mynydd ar fy nghliniau geisiaf meddai Pantycelyn. Oedd, roedd rhywbeth yno yn y mannau agored a digysgod rheini. Ac mae yno o hyd. Gwnawn yma dair pabell meddai Pedr. Fe hoffwn i ddal y profiad a'i gadw am ysbaid. Ac fe lwyddodd yr hen dadau i wneud. Er eu bod hwy wedi hen fynd a'u henwau wedi eu curo gan dymhesgloedd oddi ar eu beddau hyd yn oed, mae Duw yn dal yno yn disgwyl y dringwyr.

# ATEBION

1. Jemeima, Kesia a Keren Happuch. ( Ystyr: Colomen, Persawr a Bocs bach ddaliai golur llygad)
2. Môr Galilea neu Môr Cinnereth.
3. Sem, Ham a Jaffeth.
4. Ei wraig. Roedd hi wedi breuddwydio ac mae’n rhybuddio Peilat i beidio gwneud dim i’r Iesu.
5. Salome
6. Manoa, llwyth Dan.
7. Ainon, ger Salim ar yr Iorddonen, roedd digon o ddŵr yno.
8. Phillip, ac roedd yn frawd i Herod – wel, hanner brawd beth bynnag!
9. Capernaum.
10. Gabbatha – Y Palmant
11. Annas a Chaiaffas. Roedd Annas yn dad yng nghyfraith i Caiaffas

12 Ar y llwybr, ar y graig, ymhlith y drain, yn y tir da.

13. Hophni a Phineas ac roedd y ddau yn rapscaliwns!
14. Ar Ddydd yr Arglwydd – sef dydd Sul i ni.
15. Luc.
16. Roedd yno bum cyntedd colofnog.
17. Arwydd Jona, sef y byddai Mab y Dyn dridiau yn y ddaear fel y bu Jona dridiau ym mol y pysgodyn.
18. Gŵyl Cysegru’r Deml – yn y Gaeaf. Hannukah’r Iddewon hyd heddiw.
19. Yn Effesus, a’r Apostol Paul a’i huriai.
20. Fel Paul, gwnaethurwyr pebyll oedden nhw, gweithwyr mewn lledr.

# Y Caethiwed Amgen

## Y Parchg. Meirion Evans

Felly os y Mab â'ch rhyddha, rhyddion fyddwch yn wir. (Ioan 8,36.)

Mae'r hwn fo gaeth yn rhydd. (*Brawdoliaeth*, Waldo Williams.)

Dal fi O Dduw, dal fi yn gaeth
dal fi â'th afael gref
fel gallwyf innau fod yn rhydd
i weithio gwaith y Nef.

Os cyfyd rhwystrau ar y daith
fel muriau, faen ar faen,
fy nghysur fydd mai Ti yw'r ffordd
a'm nerth i ddal ymlaen.

Er nad oes neb all weled ing
a phoen fy ofnau cudd
o Feddyg da, ymwêl â mi
yng nghell fy meddwl prudd.

A phan ddarlledo'r byd ei boen
a'i derfysg yn fy nghlyw
daw Newydd Da Tywysog Hedd
ar donfedd awyr Duw.

Os byddaf ddall i angen plant,
os byddar wyf i'w cwyn
daw ataf ble y Bugail Da,
"Tyrd, portha di fy ŵyn."

Os bwystfil anghrediniaeth ddaw
a'm hudo i i'w ffau
o tyred addfwyn Oen i'r bwlch
i'm hachub a'm rhyddhau.

O dal fi, Iesu, dal fi'n gaeth
a phaid â'm gollwng i
fel gallwyf finnau fod yn rhydd
i'th wasanaethu Di.

(Anfonwyd llungopi o'r gerdd hon i John gan Mr Geraint Puw, y Tabernacl, Penbre, a chefais ganiatad i'w defnyddio yma gan ei hawdur, Y Parchedig a'r Prifardd Meirion Evans.

Yn fy marn i mae'n gerdd ardderchog a chofiadwy a dysgadwy dros ben sy'n mynegi gwirioneddau mawr a brwydr gyson y bywyd Cristnogol yn syml a chlir.

Mae wedi ymddangos eisoes yn Y Tyst. Diolch i'r postiwr ac yn arbennig i'w hawdur. Gol.)

# Llywydd Newydd Mudiad y Chwiorydd

## Ruth Davies



Er mai ym Mangor y cefais fy ngeni, ym Mhwllheli yr oedd cartref y teulu ar y pryd. Yn y man, a finnau'n saith mlwydd oed, fe symudom i Fangor, a chefais rai blynyddoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Sant Paul ac yna f'addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Merched. Symud wedyn i barhau f'addysg yng Ngholeg Economeg y Cartref yn Llandâf, Caerdydd gan ddilyn cwrs B. Addysg. Tra yn fyfyriwr byddwn yn mynychu'r Ysgol Sul yn y Tabernacl yng Nghaerdydd, aros i gael te p'nawn, ac yna mynychu'r oedfa hwyrol.

Penuel Bangor fyddaf yn ei ystyried yn gartref ysbrydol imi. Yno cefais fy medyddio gan y diweddar Barchedig Ifor Lloyd Williams, ac ef a briododd Bill a fi ym Mhenuel ym 1971. Fy swydd gyntaf ar ôl cymhwyso fel athrawes oedd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera yng Nghwm Tawe. Ar ôl pum mlynedd hapus yno cefais swydd darlithydd yn ôl yn fy hen goleg yn Llandâf. Buom yn byw yn Tonna ger Castellnêdd am rai blynyddoedd cyn symud i Benybont- ar-Ogwr er mwyn hwyluso'r teithio dyddiol i Gaerdydd, ac ymaelodi yn y Tabernacl, eglwys yr Annibynwyr, yn y dref honno am gyfnod cyn symud yn ôl i'r gogledd wedi i Bill gael swydd gyda Dŵr Cymru ym Mangor. Ymgartrefu yn Llandegfan ar Ynys Môn ac ail-ymaelodi wrth gwrs ym Mhenuel, Bangor, sydd erbyn hyn yn Eglwys Gydenwadol Emaus. Treuliom gyfnod o 38 mlynedd yno a chael magu ein plant, Rhys a Branwen, mewn ardal hynod o braf

Bum yn weithgar gyda'r plant yn y capel; cefais fod yn athrawes Ysgol Sul ac yn Arolygwr Ysgol Sul sawl gwaith yn ystod y cyfnod. Gyda fy ffrind Dilwen buom yn brysur yn creu baneri lliwgar i addurno'r capel, a'r ddwy ohonom fu'n gyfrifol o wneud baner Mudiad y Chwiorydd (a welir ar glawr 'Cwlwm') ac a ddyluniwyd gan Eirwyn Morris, aelod arall o Benuel. Cefais y fraint hefyd o gael fy ethol yn ddiacon. Fy swydd o ddydd i ddydd wedi symud i Landegfan oedd darlithydd ar gyrsiau hyfforddi darpar athrawon yn y Coleg Normal. Yn y man daeth y coleg yn rhan o Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, a bum yn aelod o'r Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg, ac yn un o'r tîm arolygu ysgolion yr Ysgol Addysg.

Wedi i'r ddau ohonom ymddeol penderfynu, fel nifer o'n ffrindiau, dilyn ein plant i fyw yng Nghaerdydd oedd ein hanes gyda chyfle i fod yn rhan o fywyd ein plant a'n wyrion, Twm a Gruff. Cyfle hefyd i ymaelodi yn y Tabernacl a dod yn rhan o fwrlwm pob math o weithgareddau'r brifddinas. Cafodd Bill a finnau groeso mawr gan aelodau'r eglwys, ac y mae natur cymdeithasol aelodaeth y Tabernacl wedi bod yn gymorth mawr i ni ymgartrefu yma. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai eithaf prysur. Bum yn llywydd cymdeithas ddiwylliannol y Tabernacl, ac ar hyn o bryd rwyf yn llywydd 'Cymdeithas am Ddau' sydd yn cyfarfod yn fisol ar brynhawn Mawrth. Ymestyniad ydyw o Gymdeithas y Chwiorydd ond mae'r gwŷr hefyd yn mynychu erbyn hyn. Mae amryw yn gwau ac yn gwnïo ar gyfer gwahanol elusennau, a bwriedir trefnu sawl p'nawn prosiect yn ystod y tymor sydd yn dod. Rwyf yn ysgrifennydd Dydd Gweddi'r Byd, Cylch Caerdydd ac yn rhan o'r prosiect 'Croeso Trebiwt' sydd yn gobeithio croesawu ac ailgartrefu teulu o ffoaduriaid o Syria yn y brifddinas.

Bum yn cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn edrych ar faterion hyfforddi a pharatoi adroddiad i'r Panel Diogelwch Cyd-enwadol. Bum hefyd yn cydweithio ag Aldyth Williams i edrych ar gynrychiolaeth menywod ar holl fyrddau a phwyllgorau'r Undeb. Yn ddiweddar cefais arwain gweithdai crefft yn ystod cyfarfodydd blynyddol Undeb 2022 yng Nghaerfyrddin ar y thema 'Clywed Llais Duw'. Mawr obeithiaf y caf arweiniad wrth dderbyn yn ostynedig lywyddiaeth y Mudiad ac y caf gefnogaeth y chwiorydd o bob rhan o Gymru.

**Allan o**

# Souvenir of the Manchester Welsh Wesleyan Circuit Bazaar

# 1922

Os ydych am fargeinion dowch yma'n lluoedd llon
A phrynwch gymaint alloch o'r *Stall* gyfoethog hon.
Mae'r prisiau yn rhesymol, gan hynny gwnewch eich rhan
Ac wrth wneud hyn fe fyddwch yn cynorthwyo'r gwan.

(Mrs J. Evans , 42 York Avenue, Manley Park.)

*

A dyma ddwy yn yr Iaith Fain:

It is easy enough to look pleasant
When life flows by like a song,
But the man worthwhile is the man who can smile
When everything goes dead wrong.

*Mae'n ddigon hawdd i bawb wenu*
*Pan mae bywyd yn gân ac yn ne'*
*Ond y dyn sydd o werth yw yr un sydd â nerth,*
*I roi gwên, pan fod popeth o'i le.*

(Edith Jones, 16 Rusholm Place, Rusholme.)

A dyma i chi un i gloi gan Huw Menai (Huw Owen Williams) a anfonwyd i'r cylchgrawn bach diddorol yma gan S. Jenkins o Ardwick. Cymro alltud oedd Huw Menai yn byw ym Manceinion ar y pryd. Roedd yn enedigol o dref Caernarfon ac wedi ei addysgu yn Ysgol y Tlodion yno. Wedi cyfnod yn ardal lofäol y Gilfach Goch aeth i fyw i Loegr. Dechreuodd ysgrifennu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddiweddarach yn ei oes symudodd yn ôl i'r Rhondda ac yno y bu hyd ei farw yn 1961.Cyhoeddodd ddwy gyfrol o'i waith ac mae nifer o'i gerddi wedi ymddangos ym mhapurau'r cyfnod.



*Huw Menai*

*llun: forgottenpoetsofww1*

Dear Wales! Sweet home of rivers, lakes and rills,
Pan's wondrous passion made her spirits proud,
She draws the soul of sunshine to her hills,
And o'er her fields the lark is singing loud,
For Joy, that he has been by God allowed
To pour his soul upon a land so fair;
Her ruged mountains kiss the snow-white clouds,
Mist-surpliced oft, they stretch their hands in prayer.
One feels much nearer Heaven in Wales
Than anywhere.

(Diolch i Hazel Williams Jones o Ruthun am anfon y llungopi o'r llyfryn bach, diddorol yma i mi. Gol.)

---

Mae llawer gormod o bobl yn gwario'r arian nad oes ganddyn nhw i brynu pethau nad ydyn nhw eu hangen i lanw llygaid pobl nad ydyn nhw yn eu hoffi!

Fe allwn ni wneud mwy o arian, ond allwn ni ddim gwneud mwy o amser.

# Blasus ac Oren

*spot.com*

Mae llawer o bwyslais y dyddiau yma ar fwyta llai o gig felly dyma rysait fach hawdd ond blasus. Gallwch eu bwyta yn oer gyda salad neu yn dwym gyda llysiau a thatws. Mae nhw'n dda i chi ac i'r blaned!



*Llun: Recipefooditemsblog-*

1 nionyn (winwnsyn) coch neu wyn wedi ei dorri'n fan

12 owns o ffacbys (lentils) oren

Ciwb stoc llysieuol fel Oxo gwyrdd

6 owns o gaws Cheddar cryf wedi ei ratio yn fan

2 owns o friwsion bara

Perlysiau cymysg at eich dant a garlleg os mynnwch

Halen a phupur

1 ŵy bach wedi ei guro– osam ddefnyddio dysgl

Berwi'r ffacbys gyda peint o stoc am tua 20 munud – nes bod y ffacbys yn feddal a dim stoc ar ôl. Ffrio'r nionyn/winiwnsyn mewn menyn nes iddo newid ei liw a meddalu.Cymysgu'r nionyn/ winiwynsyn i mewn i'r ffacbys, ychwanegu'r caws a'r briwsion, y perlysiau a'r halen a'r pupur. Cymysgu'r ŵy wedi ei guro i mewn hefyd. Yna troi y cyfan i mewn i ddysgl (fel un fflan) wedi ei hiro yn dda. Ffwrn 170/ Nwy 3 am tua 40 munud. (Os yw'n well gennych gallwch ddodi'r gymysgedd yn yr oergell a ffurfio teisennau bach unigol ohono. Peidiwch rhoi'r ŵy i mewn os felly. Yna crasu neu ffrio mewn olew.) Mae nhw hefyd yn rhewi yn dda.



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Cyfarchion cynnes unwaith eto i ddarllenwyr y Cwlwm a diolch am gyfle arall i rannu gyda chi yr hyn sy'n digwydd o fewn y Mudiad yn genedlaethol. Aeth pedwar mis heibio oddi ar ymddangosiad y rhifyn diwethaf ac roedd Adroddiad yr Ysgrifennydd yn y rhifyn hwnnw'n sôn am ddigwyddiadau rhithiol o fewn y Mudiad. Erbyn hyn, trwy drugaredd, gallaf adrodd am ddigwyddiadau wyneb yn wyneb.

**Cyfarfod Blynyddol Senana Cymru** - A minnau'n camu i lywyddiaeth Senana Cymru ddechrau Mai, braf oedd derbyn cyfarchion ar ran y Mudiad yn yr oedfa yng Nghaersalem gan ein llywydd presennol, Eleri Lloyd Jones. Braf hefyd oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i'r achlysur a diolch am bob cefnogaeth a dymuniad da a gefais gan garedigion a chydnabod.



*Cyn-lywyddion y Senana. Llun a dynnwyd yn y Cwrdd Blynyddol*

**Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru** - Llwyddwyd i gynnal cyfarfodydd yr Undeb wyneb yn wyneb yng Nghanolfan yr Halliwell, Prifysgol y Drindod Dewi Sant ddiwedd Mehefin. Er mai'r arferiad yw bod adroddiad y Mudiad yn cael ei gyflwyno gan nifer o'r swyddogion, cwympodd y dasg honno ar ysgwyddau Eleri eleni, a diolch o galon iddi am adroddiad graenus. Beth oedd yn arbennig am eleni oedd bod yr eglwysi di-Gymraeg yno ac felly roedd cyfle ganddynt hwy glywed am weithgaredd y Mudiad. Gan nad oes adroddiad y Mudiad yn mynd i'r adroddiad Saesneg, bu'n agoriad llygad i nifer ohonynt.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Mudiad 2022** – Bu cryn edrych ymlaen at y cyfarfod hwn ym Mhenrhyn-coch ddechrau Gorffennaf gan na lwyddwyd i gynnal un pwyllgor wyneb yn wyneb oddi ar mis Mawrth 2020. Yn anffodus, nid felly bu gan i'r ysgrifenyddes gael prawf 'covid' cadarnhaol ar y cyntaf o'r mis! Llwyddwyd fodd bynnag, er gwaethaf fy anhwylder, i gynnal y cyfarfod ar zoom.

**Adroddiad Ariannol a Dosbarthu Rhoddion** – Er gwaetha'r ffaith bod yr eglwysi a ymunodd gyda'r Mudiad wedi gostwng tipyn eleni (68 yn unig), gobeithid y byddwn fel Mudiad y gallu parhau i gyflwyno rhodd o £1,000 i gartref Glyn Nest. Roedd y trysorydd yn hynod falch hefyd iddi dderbyn £590 yn dilyn Dydd Gweddi 2021 er na fu modd cyfarfod yn y cnawd. Roedd y swm wedi cael ei drosglwyddo i Gronfa Ewrop.

**Glyn Nest a'r Dydd Agored:** Soniwyd yn adroddiad mis Mai o'r Cwlwm am anhawster y cartref i godi nôl ar ei draed yn dilyn y pandemig ac yn fwyaf arbennig am y lefelau staffio isel a'r angen i ddefnyddio asiantaethau. Braf yw gallu dweud erbyn hyn fod y lefelau staffio wedi gwella a bod modd unwaith eto croesawu deiliaid newydd i'r cartref. Braf hefyd yw dweud cymaint o ganmol fydd ar y cartref bob amser. Rydym fel aelodau Pwyllgor Gwaith y Mudiad yn hynod ddiolchgar i Jayne a'r staff yn y cartref am eu holl waith mewn cyfnod anodd dros ben. Diolchir hefyd i Irfon a Mair Roberts am eu gwaith hwythau ynghyd ag aelodau'r Cwmni Rheoli. Llwyddwyd i gynnal cyfarfodydd o'r Cwmni Rheoli ar zoom drwy gydol y pandemig, gan sicrhau bod y staff yn ymwybodol bod y Cwmni'n gefn iddynt bob amser.

Trist iawn oedd colli aelod gwerthfawr o'r Cwmni'n diweddar sef y diweddar John Thomas, Castell Newydd Emlyn. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Tŷ hefyd wedi llwyddo i ail ymgynull, ond yn anffodus, gwnaed y penderfyniad mai "saff sydd saffa" ac na fyddai'n ddiogel i gynnal y Dydd Agored eleni eto. Am fod colli tri Ddydd Agored wedi bod yn ergyd ariannol drom, apelir ar yr eglwysi i gofio am y cartref. Mae'r ddau bwyllgor yn ddiolchgar iawn bob amser am bob rhodd a ddaw oddi wrth unigolion, eglwysi a Chymanfaoedd.

**Cyfarfodydd Blynyddol 2022** – Bob blwyddyn, yn dilyn Dydd Agored arferol Glyn Nest, buan iawn y daw Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad ac mae edrych ymlaen mawr at rheini eleni gan na lwyddwyd i'w cynnal oddi ar Medi 2019! Tabernacl Caerdydd yw'r lleoliad mewn parch i Ruth Davies a fydd yn camu i'r llywyddiaeth. "Merched yn Bennaf" fydd thema'r ddwy oedfa a gynhelir am 2.00yp a 5.30yp ac fe fydd te yn y festri rhwng y ddau gyfarfod. Gan na fu modd cyfarfod ers tair blynedd, gobeithir y bydd tyrfa dda wedi teithio i Gaerdydd er mwyn cael dal i fyny gyda ffrindiau ac efallai gweithio ffrindiau newydd. Bydd yn gyfle hefyd i gyfarfod ag is-lywydd y Mudiad, y Parchg Sian Elin Thomas ac mae'n siŵr y bydd Eleri Lloyd Jones yn falch o gael camu lawr o'r llywyddiaeth yn dilyn tair blynedd yn y swydd.

**Prosiect Y Mudiad** – Mawr obeithir y byddwn yn gallu lansio Prosiect diweddaraf y Mudiad o dan y thema "Gofal" yn y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerdydd. Gyda chymaint o eglwysi bellach heb weinidog, gallai'r llyfryn bach hwn o oedfaon cyflawn fod o ddefnydd gwerthfawr i'n heglwysi. Diolch i bawb a gyfrannodd iddo.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** – Dyddiad y Cyfarfod Gweddi eleni yw dydd Llun, Tachwedd 7fed, ond gellir defnyddio'r oedfa unrhyw bryd. Rwy'n parhau i ddisgwyl am yr oedfa Saesneg ond pan ddaw, fe fydd y Parchg Jill Tomos yn ei haddasu a'i chyfieithu ar gyfer cynulleidfaoedd eglwysi Cymru a byddaf innau'n ei hanfon allan i'r eglwysi. Diolch i Jill am ymgymryd â'r gwaith yma eleni eto. Gobeithir y byddwn yn gallu ymgynnull wyneb yn wyneb eleni.

**Deiseb Heddwch Nain Mam-gu** – Cyfeiriwyd at y ddeiseb hon ym mhwyllgor Gwaith mis Mawrth ac ym Mhwyllgor Cyffredinol Gorffennaf. Deiseb ydoedd a ffurfiwyd gan ferched o Gymru yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 1923 apeliodd menywod Cymru ar fenywod America i bwyso ar y wlad i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Y dyhead oedd byd heb ryfel. Arwyddodd bron 400,00 o fenywod Cymru yr Apêl oedd yn saith milltir o hyd. Cyflwynwyd cist yn dal y llofnodion gan dair o fenywod o Gymru i fenywod o America yn Chwefror 1924. Ar ôl ail-ddarganfod hanes yr apêl daeth grŵp bach o fenywod ynghyd i ffurfio 'Heddwch Nain Mam-gu' yn 2016 gyda'r gobaith o greu partneriaeth Hawlio Heddwch rhwng prif sefydliadau Cymru i nodi canmlwyddiant yr apêl. I ddathlu'r achlysur gobeithir cyhoeddi llyfrau am yr hanes i oedolion ac i blant, parhau gyda'r ychwil yng Nghymru ac America i'r apêl wreiddiol, a lansio apêl newydd. Ceir mwy o wybodaeth am hyn eto a mawr obeithir y bydd Mudiad y Chwiorydd yn gallu bod yn rhan o hyn.

**Gwau a gwnïo** - Mae'r ymgyrchoedd gwau a gwnio'n parhau! Bum yn siarad gydag un o chwiorydd eglwys Blaenconin, sir Benfro'n ddiweddar a hithau'n dweud cymaint o bleser roedd gwau wedi bod i'r chwiorydd, yn arbennig yn ystod y cyfnod clo, pan nad oedd hawl cymysgu gydag eraill. Mae hon felly'n sefyllfa o ennill i bawb – ennill i'r rhai sy'n gwau gan roi pwrpas i bob pwyth, ac ennill i'r rhai sydd wir angen y dillad. Diolch o galon i bob unigolyn am eich cyfraniadau a plîs, plîs, daliwch ati i gadw'r dwylo yna'n brysur!

**Cwlwm** - Yn ei hanfod mae cwlwm yn tynnu pethau ynghyd "a'u dal yn eu lle" a dyna'n wir fu hanes y Cwlwm dros y cyfnod anodd diweddar a brofwyd gennym oddi ar Mawrth 2020. Pan nad oedd modd cyfarfod yn unman, dyna braf oedd cael cadw i fyny gyda gwaith y Mudiad drwy gyfrwng y rhifynnau a baratowyd yn ddiwyd ac a rannwyd ar y we a thrwy e-byst i'r aelodau. Yn wir, bu darllen y Cwlwm yn eli i'r galon i lawer ohonom. Daw'r adroddiad hwn i ben felly drwy ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at bob rhifyn gydag erthyglau diddorol ac yn arbennig iawn i Einir Jones, y sawl fu'n gyfrifol am ein hannog i gyfrannu ac yna'n rhoi'r cyfan at ei gilydd yn barod i'w rannu. Bellach, rydym wedi mynd nôl i'r hen drefn o argraffu a dosbarthu a diolch i bawb o'r dosbarthwyr am eu gwaith. Daliwn ati felly i barhau gyda'r cyfrwng gwerthfawr hwn o gadw mewn cysylltiad â'n gilydd.